



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

YR ADBORTH A DDWEDOCH WRTHYM Hwb Menywod Aberystwyth Ymweliad â Chlinig Dydd Gynaecoleg GORFFENNAF 2026

Fel rhan o raglen “Llais Lleol Gogledd Ceredigion” Llais Gorllewin Cymru, treulion ni bythefnos yn siarad â phobl leol am eu profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhoddodd siarad â phobl fewnwelediadau gwerthfawr i ni ac ystod eang o brofiadau, gan ein helpu i ddeall yn well beth sydd bwysicaf i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned.

Dyma drosolwg o'r hyn a ddywedodd menywod wrthym yn ystod ein hymweliad â Hwb Menywod Aberystwyth a'r Clinig Dydd Gynaecoleg.



CYFLWYNIAD

Mae'r Clinig Gynaecoleg wedi'i leoli yn:

Adeilad Iechyd Integredig
Ffordd Penglais
Aberystwyth
SY23 3DU

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig yn cynnwys:

- **Iechyd Mislifol:** Cymorth ac ymchwiliadau ar gyfer gwaedu mislif trwm, poen mislif difrifol ac Anhwylder Dysfforig Cyn-mislifol (PMDD).
- **Gofal Menopos:** Ymgynghoriadau cyfannol, rheoli symptomau ac arweiniad.
- **Atal Cenhedlu:** Gosod a rheoli dulliau Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor (LARC).
- **Gofal Pelfig ac Arbenigol:** Rheoli poen pelfig, dermatoleg y fylfa, Syndrom Ofariau Polycystig (PCOS), a chymorth ar gyfer problemau'r bledren a'r coluddyn.
- **Diagnosteg Uwch:** Mynediad at sganiau uwchsain uwch yn y gymuned i leihau amseroedd aros mewn ysbytai.

Beth ellid ei wneud yn well?

"Yn bendant mae angen gwybodaeth gliriach a mwy hygyrch gan wasanaethau gofal sylfaenol, yn enwedig ynghylch llwybrau cleifion."

"Cododd person ifanc bryderon am y cyfathrebu rhwng y meddyg teulu a'r clinig, a'r angen am well cyfathrebu gan y bwrdd iechyd yn gyffredinol."

"Fel gŵr claf, rwy'n hoffi'r syniad o gael hwb i ddynion. Rwy'n gweld bod fy ngwraig yn cael gwasanaeth rhagorol yma. Mae'r staff yn hyfryd."

Beth sy'n gweithio'n dda?

"Rwy'n credu bod y gwasanaeth yma'n rhagorol! Mae pawb mor gymwynasgar ac ni allwn ofyn am ddim mwy. Os oes gennyf unrhyw bryderon, gallaf ffonio neu wneud apwyntiad."

"Does dim problem byth dod o hyd i le i barcio."

"Mae apwyntiadau'n dod drwodd yn weddol gyflym. Rwy'n teimlo bod pobl yma'n gwrando arnaf, yn esbonio popeth mewn ffordd rwy'n ei deall ac mewn termau anghlinigol."



ADBORTH CADARNHAOL

Dywedodd cleifion lawer o bethau cadarnhaol am y staff, y driniaeth a'u profiadau yn Hwb y Menywod.

Canmolodd pawb y buom yn ymgysylltu â nhw'r ffordd yr oedd y staff yn trefnu apwyntiadau pan oedd angen.

EIN CANFYDDIADAU

Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn hapus iawn gyda'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Disgrifiodd y menywod y gwnaethom siarad â nhw'r gwasanaeth fel un rhagorol a dywedasant fod y staff bob amser yn gymwynasgar ac yn gefnogol. Roeddent yn teimlo bod apwyntiadau'n hawdd eu cael ac yn gwerthfawrogi'r ffaith bod staff yn gwrando ar eu pryderon ac yn cymryd amser i ymateb.

Roedd gwybodaeth yn cael ei hegluro'n glir mewn iaith bob dydd, gan eu helpu i ddeall eu gofal a rhoi hyder iddynt wrth geisio cymorth pan oedd angen. Amlygodd yr adborth nifer o gryfderau, gan gynnwys mynediad cyflym at apwyntiadau, gwasanaethau presgripsiynau effeithlon, cyfathrebu da, a dull gofalggar sy'n canolbwyntio ar y claf gan y staff.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Bydd Llais yn rhannu ein hadborth drwy:

- Gyhoeddi diweddariadau yn ein cylchlythyr
- Cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan
- Rhannu'r adborth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Diolch i bawb a rannodd eu barn. Mae eich mewnbwn yn bwysig!

LLAIS GORLLEWIN CYMRU

Yn cwmpasu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl sy'n byw yn:

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Benfro



ymholiadaugorllewincymru@llais.org



01646 697 610



@LlaisGorllewinCymru